



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 19.12.2016

Ffarwelio

Hoffem ddymuno pob lwc i Mr Rhys Roberts, pennaeth yr Adran Ddylunio a Thechnoleg sy'n ein gadael cyn y Nadolig. Bu Mr Roberts gyda ni am ddeng mlynedd yn yr ysgol yn gweithio'n dawel a diwyd. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Adroddiad Taith Patagonia Elin Wyn James Hydref 2016

Daeth Hydref 20 o'r diwedd, wedi misoedd o baratoi ar gyfer Taith yr Urdd i Batagonia!

Esquel

Teithiodd 25 ohonom o ardaloedd gwahanol yng Nghymru o Lundain i Buenos Aires, taith 14 awr cyn dal awyren arall i Esquel, ac roedden oll yn falch o gyrraedd ein llety yn Nhrevelin ar ôl taith mor hir. Fe'n croesawyd gan Nia Jones o Fenter Patagonia a bu hithau yn ein tywys o amgylch yr ardal. Wedi noson dda o gwsg aeth un o drigolion y pentref, Alwen Green a ni i gwrdd a theuluoedd mewn fferm lleol, ynghyd ac ymweld a'r Afon Fawr a'r tir mynyddig. Roedd y golygfeydd yn ysblennydd a'r croeso yn gynnes iawn, sy'n fwy na fedraf ddweud am y diod lleol, 'mate', y mae gofyn i bawb ei yfed i waelod y cwpan, o ran cwrtseisi! Buom yn Esquel am bum diwrnod yn rafftio dŵr gwyn, yn cynnal cyngherddau ac ymweld a llefydd hanesyddol yr ardal. Cawsom lawer o hwyl ar ein noson olaf yn Nrevelin mewn *asado* (sef rhostio mochyn a chig oen) ar fferm lleol. Bum yn cymeryd rhan mewn cwis ac yn canu o amgylch y tân hyd machlud haul.

Ysgolion

Un o'r pethau sy'n aros yn y cof am y daith oedd yr ymweliadau â'r ysgolion. Bum yn cynnal cyngherddau a nosweithiau llawen yn Ysgol Gymraeg yr Andes, Ysgol y Cwm ac Ysgol Yr Hendre. Roedd y disgyblion yn cael gwersi Cymraeg yn y bore a gwersi Sbaeneg yn y prynhawn. Roeddwn wedi rhyfeddu at glywed y plant bach yn rhugl yn y Gymraeg! Trefnwyd ein bod yn mynd a nwyddau allan i'r ysgolion Cymraeg o Gymru. Roedd y staff yn eu dagrau o dderbyn ein rhoddion. Cawsom lawer o hwyl yng nghwmni'r plant, yn chwarae gemau, canu caneuon Cymraeg, ac yn eu dysgu i ddawnsio gwerin tra bod y plant yn ceisio dysgu dawnsfeydd yr Ariannin i ni!

Porth Madryn a Gaiman

Roedd croesi'r Paith yn dipyn o brofiad. Gwnaethom y daith 7 awr ar y bws dros nos a chyrraedd y Gaiman am 6 y bore, a chychwyn ar unwaith am Borth Madryn. Roedd y gymuned hon yn un ddiddorol iawn a bum yn ymweld â dosbarthiadau Cymraeg, a chwrrd a'r chwedlonol Luned



Gonzalez! Profiad hyfryd oedd ymweld â'r man lle laniodd y Cymry, a cheisio dychmygu sut borfiad a gafodd y pereinion cyntaf ychydig dros 150 o flynyddoedd yn ôl, yn enwedig gan eu bod wedi gorfod treulio peth amser mewn ogofau. Diddorol oedd ymweld â'r Amgueddfa sy'n adrodd hanes y glanio. Tra'n ymweld â fferm leol, clywsom gan y ffermwr am y modd y bu i'r Cymry gloddio am ddŵr a chreu camlesi, ac mae'r un camau yn cael eu gwneud o hyd heddiw mewn ambell ardal gan bod y tir mor sych. Aethom ar ymweliad â bedd Catherine Roberts, yr oedolyn cyntaf o'r Cymry a gladdwyd ym Mhatagonia a chanwyd emyn ger ei bedd.

Cawsom gyfle hefyd i weld Seremoni'r Orsedd ar Faes yr Hen Wladfawyr, ac roedd yn ddiddorol i glywed y seremoni yn ddwyieithog - Cymraeg a Sbaeneg. Yn hytrach na bod cynrychiolwyr o dramor yn cael eu cyflwyno yn Seremoni'r Orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ni oedd yn cael ein cyflwyno yn seremoni'r Orsedd ym Mhatagonia yn tro hwn! Cyrhaeddodd yr Arwyddfardd ar ben ceffyl!

Cawsom ein tywys o amgylch y Gaiman gan ddisgblion Coleg Camwy a gweld llefydd a chysylltiadau Cymraeg ynghyd a gweld y Coleg. Profiad hyfryd oedd ymweld ac Ysgol Gerdd y Gaiman, a gwrando ar y disgylbion yn canu telynau a ariannwyd yn ddiweddar gan bobl Cymru.

Trelew

Roedd hi'n ddiwrnod mawr yn Nhrelew gan ei bod yn ddiwrnod Steddfod Y Wladfa. Bu criw ohonom yn cystadlu mewn nifer o gystadlaethau a bum yn ddigon ffodus i ennill y wobwr gyntaf am y côr! Y beirniad cerdd oedd Gwenan Gibbard a'r beirniad llefaru oedd Terwyn Tomos. Ef hefyd enillodd y Gadair Cymraeg. Gwelodd mam seremni'r Cadeiro o Batagonia yn fyw dros y wê! Roedd bod yn y Eisteddfod yn brofiad bythgofiadawy. Roedd yn gwbl ddwyieithog, Cymraeg a Sbaeneg, ac ysbryd llawer mwy jacôs nag yng Nghymru! Bu i bob un ohonom fwynhau'r Steddfod yn fawr iawn. Cawsom gyfle i ymuno yn Y Gymanfa Ganu yn un o'r Capeli Cymraeg yn Nhrelew. Roedd arweinydd gwahanol yn arwain pob emyn! Buom yno am oriau! Diweddwyd ein taith ym Mhatagonia drwy gymeryd rhan mewn noson lawen yn Nhrelew.

Beunos Aires

Wedi taith awyren fer o Drelew i Buenos Aeres cawsom ein tywys o amgylch y ddinas ddiddorol hon cyn mwynhau pryd moethus a gweld Tango mewn theatr grand, a gwely mewn gwesty moethus, a oedd yn fendigedig ar ôl treulio wythnos yn cysgu ar lawr campfa. Bu'r daith adref yn hirach na'r daith allan a phawb ohonom yn ymwybodol bod y profiad bythgofiadwy hwn ar fin dod i ben.

Mae llawer o bethau yngl yf â'r daith a fydd yn aros gyda fi tra fyddai. Y gwmniaeth yn un peth, a'r cwlwm tynn sydd bellach wedi ei greu rhyngom fel ffrindiau o bob cornel o Gymru. Hefyd, roeddwn wedi rhyfeddu at sylwrydd bywyd yn Y Wladfa a'n bywydau ni yn y gorllewin mor gymhleth. Roedd clywed yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad mos bell o adref yn brofiad swreal, ac hefyd yr un traddodiadau Cymreig yn cael eu cadw.

Bu'n fraint fawr i gael mynd ar y daith, ac rwy'n hynod o ddiolchgar i'r Urdd am y cyfle, ac hefyd i bawb ohonoch a fu mor garedig a'm cefnogi a'm noddi. Diolch yn fawr iawn.

Adroddiad Elin Wyn James

Stori'r Geni'n fyw

Pnawn dydd Iau ola'r tymor aeth disgyblion blwyddyn 7 gyda'r Adran Addysg Grefyddol i weld drama Stori'r Nadolig yng nghapel Y Bedyddwyr, Heol Awst. Cawsom weld a chlywed Stori'r Nadolig yn fyw gan drigolion Sir Caerfyrddin heb anghofio cwrdd ar asynnod. Hyfryd oedd pnawn Nadoligaidd yn ei wir ystyr i orffen tymor caled o waith.



Canlyniadau Rygbi

8fed o Ragfyr

Tiws Pencampwyr Ardal Scarlets

Pencampwriaethau Ysgolion Hŷn a Cholegau Cymru

BM 5 v Ysgol Bro Tawe 5

BM 0 v Coleg Gwent Crosskeys 5

BM 0 v Ysgol Dyffryn Conwy 7

BM 7 v Treorchy Comprehensive 7

Cyfartal 3ydd yn y twrnament

CYNLLUN MENTORA CYFOEDION YGGBM 2016-2017

Eleni eto hyfforddwyd dros 20 o ddisgyblion Blwyddyn 12 i fod yn fentoriaid i ddisgyblion iau'r ysgol.

Mae rôl y mentor yn holl bwysig: p'un ai bod angen cael clonc gyda rhywun neu gymorth gyda gwaith cartref, mae mentoriaid yr ysgol o hyd ar gael i gynorthwyo gydag amrywiaeth o broblemau.

Hyfforddwyd y mentoriaid gan Mrs. Judith Al-Rawazik a Mrs. Morwen Hughes.

Chwaraeon

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed blwyddyn 8 ar ddod yn bencampwyr Sir Gâr wrth guro ysgol Bryngwyn o 9 gôl i un.

Llongyfarchiadau i Sioned Thomas blwyddyn 9 ar gael ei dewis i ymarfer gyda sgwad Prydain mewn gymnasteg.

Torri gwallt i godi arian

Llongyfarchiadau i Fiona Shields o flwyddyn 8 a lwyddodd i godi dros £1,000 ar gyfer elusen cancr Mcmillan a'i modryb Bernadette sy'n derbyn triniaeth chemotherapy ar hyn o bryd. Bu'n ddewr gan dorri ei gwallt hir i achos da ar y rhaglen Heno ar S4C nos Fercher.

